**Rhif: WG44010**

Llywodraeth Cymru
Cais am dystiolaeth

# Y Rheoliadau a'r canllawiau ar gyfer ysgolion annibynnol: cais am dystiolaeth

Dyddiad cyhoeddi: 9 Rhagfyr 2021
Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn 4 Chwefror 2022

© Hawlfraint y Goron

# Rheoliadau ysgolion annibynnol

**Trosolwg**

Mae Llywodraeth Cymru yn galw am dystiolaeth i lywio ei hadolygiad o'r trefniadau presennol ar gyfer rheoleiddio ysgolion annibynnol yng Nghymru, ac i'w llywio hefyd yn ei bwriad i ddiweddaru y rheoliadau, yn ogystal ag adolygu'r canllawiau cofrestru a gweithredu ategol.

**Sut i ymateb**

Mae'r cais hwn am dystiolaeth yn gofyn am farn, tystiolaeth ategol ac awgrymiadau ar newidiadau posibl i'r fframwaith deddfwriaethol a'r canllawiau ar gyfer rheoleiddio ysgolion annibynnol.

Dylid ebostio ymatebion i'r ymgynghoriad hwn at bwydysgolacysgolionannibynnol@llyw.cymru neu ddefnyddio'r holiadur arlein i gyrraedd erbyn **4 Chwefror 2022** fan hwyraf.

**Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig**

**Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.**

Mae'r dogfen  hon ar gael o wefan Llywodraeth Cymru yn Sefydlu ysgol neu newid ei statws

**Manylion cysylltu**

I gael rhagor o wybodaeth:
Bwyd Ysgol ac Ysgolion Annibynnol
Cefnogaeth i Ddysgwyr
Y Gyfarwyddiaeth Addysg
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

ebost: bwydysgolacysgolionannibynnol@llyw.cymru

Ffôn: 03000604400

@ LIC_Addysg

Facebook/AddysgCymru

## Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol

Llywodraeth Cymru fydd y rheolydd data ar gyfer unrhyw ddata personol a ddarperir gennych wrth ichi ymateb i'r ymgynghoriad. Mae gan Weinidogion Cymru bwerau statudol y byddant yn dibynnu arnynt i brosesu’r data personol hyn a fydd yn eu galluogi i wneud penderfyniadau cytbwys ynghylch sut y maent yn cyflawni eu swyddogaethau cyhoeddus. Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â nhw neu sy’n cynllunio ymgyngoriadau ar gyfer y dyfodol. Pan fo Llywodraeth Cymru yn cynnal dadansoddiad pellach o'r ymatebion i ymgynghoriad, yna gall trydydd parti achrededig (e.e. sefydliad ymchwil neu gwmni ymgynghori) gael ei gomisiynu i wneud y gwaith hwn. Ymgymerir â gwaith o'r fath dim ond o dan gontract. Mae telerau ac amodau safonol Llywodraeth Cymru ar gyfer contractau o'r fath yn nodi gofynion caeth ar gyfer prosesu data personol a’u cadw’n ddiogel.

Er mwyn dangos bod yr ymgynghoriad wedi’i gynnal yn briodol, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae’n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi’r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu’r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda’r ymateb. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio’ch manylion cyn cyhoeddi’ch ymateb. Dylech hefyd fod yn ymwybodol o'n cyfrifoldebau o dan ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth.

Os caiff eich manylion chi eu cyhoeddi fel rhan o'r ymateb i'r ymgynghoriad, caiff yr adroddiadau hyn eu cadw am gyfnod amhenodol. Ni fydd gweddill eich data a gedwir fel arall gan Lywodraeth Cymru yn cael eu cadw am fwy na thair blynedd.

### Eich hawliau

O dan y ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych yr hawl:

- i wybod am y data personol a gedwir amdanoch chi a'u gweld
- i’w gwneud yn ofynnol inni gywiro gwallau yn y data hynny
- (o dan rai amgylchiadau) i wrthwynebu neu gyfyngu ar brosesu’r data
- (o dan rai amgylchiadau) i’ch data gael eu ‘dileu’
- (o dan rai amgylchiadau) i gludadwyedd data
- i gyflwyno cwyn i Swyddfa’r Comisiynydd Gwybodaeth, ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data.

I gael rhagor o fanylion am yr wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei chadw ac am y defnydd a wneir ohoni, neu os ydych am arfer eich hawliau o dan Reoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data gweler y manylion cyswllt isod:

Y Swyddog Diogelu Data:
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
e-bost:
Data.ProtectionOfficer@llyw.cymru

Dyma fanylion cyswllt Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth:
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF
Ffôn: 01625 545 745 neu 0303 123 1113
Gwefan: https://ico.org.uk/

# Cynnwys

| | |
|---|---|
| **Cyflwyniad** | **2** |
| **Y cefndir** | **4** |
| **Canllawiau cofrestru a gweithredu ysgolion annibynnol** | **6** |
| **Diogelu dysgwyr** | **7** |
| **Cryfhau prosesau rheoli a llywodraethu** | **9** |
| **Methu â bodloni un neu fwy o safonau** | **10** |
| **Newidiadau eraill** | **11** |

## Cyflwyniad

Mae Llywodraeth Cymru yn galw am dystiolaeth i lywio ei hadolygiad o'r trefniadau presennol ar gyfer rheoleiddio ysgolion annibynnol yng Nghymru, ac i'w llywio hefyd yn ei bwriad i ddiweddaru y rheoliadau, yn ogystal ag adolygu'r canllawiau cofrestru a gweithredu ategol.

Mae'r cais hwn am dystiolaeth yn gofyn am farn, tystiolaeth ategol ac awgrymiadau ar newidiadau posibl i'r fframwaith deddfwriaethol a'r canllawiau ar gyfer rheoleiddio ysgolion annibynnol. Nid yw'n fwriad cyfyngu'n ddiangen ar y rhyddid sydd gan ysgolion annibynnol i drefnu eu hunain a darparu addysg, ac rydym yn ymwybodol y dylai unrhyw newidiadau fod yn rhesymol ac yn gymesur.

Mae ein hamcanion yn gliriach mewn rhai meysydd nag eraill, ac mae yna fwriad i arfer y pwerau a roddwyd i Weinidogion Cymru gan adran 167A o Ddeddf Addysg 2002 i wneud rheoliadau sy'n rhagnodi ar ba sail y caniateir rhoi cyfarwyddyd sy'n gwahardd unigolyn rhag cymryd rhan yn y gwaith o reoli ysgol annibynnol yng Nghymru.  Ystyrir bod hwn yn gam pwysig y dylid ei gymryd i ddiogelu dysgwyr.

Mae diogelu dysgwyr yn flaenoriaeth uchel i Lywodraeth Cymru ac rydym yn cydnabod bod bylchau yn y trefniadau diogelu presennol mewn ysgolion annibynnol.  Rydym yn gwahodd ymatebwyr i nodi newidiadau a fydd, yn eu barn nhw, yn gwella sut y rheoleiddir ysgolion annibynnol, ac a fydd yn rhoi sicrwydd ychwanegol bod dysgwyr yn y lleoliadau hyn yn cael eu diogelu.

Mae'r cais hwn am dystiolaeth hefyd yn gwahodd cyfraniadau ar feysydd eraill gan gynnwys:

- camau y gellid eu cymryd i helpu i gryfhau'r trefniadau i reoli a llywodraethu ysgolion annibynnol;
- a ddylid adolygu yr  ymyriadau sydd ar gael i Lywodraeth Cymru mewn achosion o fethu â bodloni safonau ysgolion annibynnol;
- a ddylid gwneud unrhyw newidiadau i'r safon ansawdd addysg i adlewyrchu newidiadau mewn cymdeithas ers iddi gael ei phennu, i sicrhau bod dysgwyr yn barod ar gyfer bywyd fel oedolyn.

Mae hefyd yn rhoi cyfle i chi gyflwyno tystiolaeth i lywio gwaith arall sy'n cael ei ddatblygu gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â chyflwyno gofyniad i staff cymorth addysgu a dysgu mewn ysgolion annibynnol gofrestru gyda Chyngor y Gweithlu Addysg.

### Ar gyfer pwy y mae hyn

Mae'r cais hwn am dystiolaeth ar gyfer

- Perchnogion, cyrff llywodraethu a darpar berchnogion ysgolion annibynnol
- Rhieni, dysgwyr a darpar rieni a dysgwyr ysgolion annibynnol
- Holl staff ysgolion annibynnol
- Awdurdodau lleol
- Rheoleiddwyr ysgolion annibynnol
- Sefydliadau cynrychiolIadol gan gynnwys undebau llafur
- Sefydliadau sy'n cynrychioli plant a phobl ifanc yng Nghymru

## Sut i ymateb

Dylid ebostio ymatebion i'r ymgynghoriad hwn at bwydysgolacysgolionannibynnol@llyw.cymru neu ddefnyddio'r holiadur arlein i gyrraedd erbyn **4 Chwefror 2022** fan hwyraf.

Mae'r cais hwn am dystiolaeth yn gofyn am farn, tystiolaeth ategol ac awgrymiadau ar newidiadau posibl i'r fframwaith deddfwriaethol a'r canllawiau ar gyfer rheoleiddio ysgolion annibynnol.

# Y cefndir

Ar hyn o bryd mae 79 o ysgolion annibynnol wedi'u cofrestru yng Nghymru. Mae'r ystod oedran y mae'r ysgolion hyn yn darparu ar ei gyfer yn amrywio o ysgol i ysgol. Mae rhai yn derbyn dysgwyr hyd at 18 oed, ac eraill ond yn darparu ar gyfer ystodau oedran penodol. Ceir amrywiadau sylweddol hefyd yn nifer y dysgwyr a dderbynnir gan ysgol. Mae'r ysgol leiaf wedi'i chofrestru ar gyfer uchafswm o 4 dysgwr, a'r fwyaf ar gyfer hyd at 1,500. Mae rhai ysgolion yn cynnig darpariaeth breswyl i'w dysgwyr.

Mae rhai o'r ysgolion yn arbenigo mewn addysg i ddysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) neu anghenion addysgol arbennig (AAA). Mae rhai yn cynnig darpariaeth breswyl neu'n gysylltiedig â lleoliad preswyl.

## Diffiniad o ysgol annibynnol

Diffinnir ysgol annibynnol yn adran 463 o Ddeddf Addysg 1996 ac mae'n darparu'r canlynol:

(1) Ystyr "ysgol annibynnol" yw unrhyw ysgol lle darperir addysg amser llawn ar gyfer—

(a) pump neu fwy o ddisgyblion o oedran ysgol gorfodol; neu
(b) o leiaf un disgybl o'r oedran hwnnw y cynhelir cynllun Addysg, Iechyd a Gofal[1] ddatganiad neu gynllun datblygu unigol ar ei gyfer, neu sy'n derbyn gofal gan awdurdod lleol (o fewn ystyr adran 22 o Ddeddf Plant 1989 neu adran 74 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014),

ac nad yw'n ysgol a gynhelir gan awdurdod lleol.

(2) Nid yw'n berthnasol p'un a ddarperir addysg amser llawn hefyd yn yr ysgol ar gyfer disgyblion sydd o dan neu dros oedran ysgol gorfodol.

## Y rheoliadau sy'n ymwneud ag ysgolion annibynnol

Y Prif Reoliadau a Gorchymyn

Rheoliadau Safonau Ysgol Annibynnol (Cymru) 2003
Rheoliadau Ysgolion Annibynnol (Darparu Gwybodaeth) (Cymru) 2003
Rheoliadau Ysgolion Annibynnol (Cymeriad Crefyddol Ysgolion) (Gweithdrefn Ddynodi) (Cymru) 2003
Rheoliadau Ysgolion Annibynnol (Cyhoeddi Adroddiadau Arolygu) (Cymru) 2003
Rheoliadau Addysg (Ysgolion Annibynnol) (Personau Anaddas) (Cymru) 2009
Gorchymyn Dynodi Ysgolion sydd â Chymeriad Crefyddol (Ysgolion Annibynnol) (Cymru) 2009

[1] EHC

Mae'r diwygiadau i'r rheoliadau yn cynnwys y rhai a wneir gan

Rheoliadau Ysgolion Annibynnol (Darparu Gwybodaeth) (Cymru) (Diwygio) 2021
Rheoliadau Ysgolion Annibynnol (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2007

Er bod rhai o'r rheoliadau wedi'u diwygio ers iddynt gael eu gwneud, maent wedi dyddio ac nid ydynt o reidrwydd yn adlewyrchu'r arferion, y canllawiau a'r polisïau gorau. Mae nifer o wendidau yn y ddeddfwriaeth bresennol wedi dod i'n sylw fel rheoleiddiwr ysgolion annibynnol, wrth ymateb i bryderon a phrofiad Estyn[2] sy'n arolygu ysgolion annibynnol. Mae yna arolygiadau sy'n nodi newidiadau sylweddol o fewn ysgolion na gymeradwywyd gan Lywodraeth Cymru yn unol â'r broses rhagnodedig a all olygu bod ysgol yn torri'r termau cofrestri. Ceir hefyd enghreifftiau o ysgolion sy'n methu â bodloni safonau sy'n ymwneud ag ansawdd yr addysg a ddarperir a'r rhai sy'n ymwneud â lles, iechyd a diogelwch dysgwyr.

Pan fydd ysgol annibynnol yn methu â bodloni un neu fwy o'r safonau mewn ffordd ddifrifol, mewn mwy nag un ffordd, neu fwy nag unwaith, mae'r dystiolaeth yn awgrymu weithiau bod gwendidau yn strwythur rheoli a phrosesau llywodraethu'r ysgol. Lle mae angen gwella yn y maes hwn, y rheswm fel rheol yw nad yw'r gweithgarwch hunanwerthuso a chynllunio gwelliant yn ddigon trwyadl ac nad yw'r prosesau sicrhau ansawdd yn ddigon cadarn i arweinwyr allu nodi'n gywir gryfderau'r ysgol na'r meysydd y mae angen eu datblygu. Mae hyn yn golygu nad yw blaenoriaethau allweddol yn cael eu nodi'n ddigon da ac nad yw'r cynllunio'n ddigon effeithiol i gryfhau'r ddarpariaeth a gwella deilliannau i ddysgwyr.

Yn ystod y 5 mlynedd ers blwyddyn academaidd 2015/16, mae Estyn wedi cynnal tua 50 o arolygiadau craidd, 90 o ymweliadau monitro; a 15 ymweliad sydd â ffocws penodol mewn ysgolion annibynnol. Yn ystod yr un cyfnod, mae Llywodraeth Cymru wedi ei gwneud yn ofynnol i ysgol ddarparu cynllun gweithredu ar ôl arolygiad ar 53 achlysur. Mae'r diffygion o ran cydymffurfio â Rheoliadau Safonau Ysgol Annibynnol (Cymru) 2003 yn ymwneud yn bennaf â'r safon ynghylch ansawdd yr addysg a ddarperir a'r safon ynghylch lles, iechyd a diogelwch disgyblion.

[2] **Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Canllawiau cofrestru a gweithredu ysgolion annibynnol

Er mwyn helpu ysgolion i ddeall sut i gydymffurfio â'r rheoliadau a gofynion statudol eraill rydym wedi darparu Canllawiau cofrestru a gweithredu ysgolion annibynnol. Mae'r canllawiau yn rhoi rhagor o fanylion am yr hyn sy'n ofynnol er mwyn i ysgol annibynnol gydymffurfio â'r gofynion statudol a darparu addysg o ansawdd da mewn amgylchedd ddiogel. Maent yn esbonio'r gyfraith (er nad yw'n gyngor cyfreithiol); y broses ymgeisio i gofrestri ysgol annibynnol; y safonau y disgwylir i bob ysgol eu cyrraedd a'u cynnal; rôl yr asiantaethau arolygu; y pwerau sydd ar gael i Lywodraeth Cymru pan fo ysgol annibynnol yn methu â bodloni'r safonau gofynnol; sut i ofyn am newid i'r amodau cofrestredig a'r gweithdrefnau adrodd eraill. Maent yn cynnwys cyngor ac yn awgrymu arfer da i helpu ysgolion i barhau i gydymffurfio â'r safonau, ac yn cyfeirio at ddeddfwriaeth a chanllawiau eraill sy'n berthnasol i ysgolion annibynnol, megis ym maes cydraddoldeb, diogelu a lles dysgwyr.

Mae ein profiad yn awgrymu nad yw ysgolion yn cyfeirio'n rheolaidd at y canllawiau ar ôl iddynt gael eu cofrestru. Byddai dilyn y canllawiau o gymorth i ysgolion sicrhau eu bod yn cadw at ofynion statudol; er enghraifft , y broses o wneud cais am newid sylweddol i ysgol.

Hoffem glywed gennych am ba newidiadau y gallem eu gwneud i'r canllawiau i'w gwneud yn fwy hwylus i ysgolion eu defnyddio a'u gwneud yn ddogfen y bydd ysgolion yn cyfeirio ati'n rheolaidd i'w helpu i gydymffurfio â'r safonau yn gyson a'u cynorthwyo i ddarparu addysg o safon dda mewn awyrgylch ddiogel. Mae'n bosibl ychwanegu manylion a rhoi cyfarwyddyd clir mewn dogfen ganllaw ac mae'n hawdd cadw'r cynnwys yn gyfredol i adlewyrchu gofynion statudol a pholisi, gan ei gwneud yn ddogfen gyfeirio ddefnyddiol i ysgolion. Er na fwriedir i'r rheoliadau a'r canllawiau ragnodi'n benodol ynglŷn â'r ffordd y mae ysgol yn trefnu ei hun ac yn mynd ati i addysgu, mae yna safonau a gofynion rheoleiddiol eraill y mae'n rhaid i ysgol eu bodloni.

A fyddai'n ddefnyddiol ac yn haws dod o hyd i wybodaeth berthnasol os yw'r canllawiau yn nodi'n gliriach y gofynion ar wahanol gamau, megis:

- yr hyn a ddisgwylir wrth gofrestru,
- y gofynion o fewn 3 mis i gofrestru, a
- y datganiad blynyddol a gofynion parhaus rhedeg yr ysgol.

A ddylai'r canllawiau fod yn fwy cynhwysfawr a chynnwys:

- mwy o gymorth am yr hyn y dylid ei gynnwys mewn polisïau a dogfennau eraill fel cynlluniau gweithredu
- mwy o gyngor ynghylch pryd y dylai ysgol gyflwyno cais am newid sylweddol ac eglurder ar y broses ar gyfer cael caniatâd cyn gweithredu'r newidiadau
- cyfeiriadur o ffynonellau cyngor a gwybodaeth

**Cwestiwn 1: Pa newidiadau y gallwn eu gwneud i'r ddogfen *Canllawiau cofrestri a gweithredu ysgolion annibynnol* i'w gwneud yn ffynhonnell fwy defnyddiol o gyngor a gwybodaeth i ysgolion annibynnol a darpar ysgolion annibynnol?**

## Diogelu dysgwyr

Dylai amgylchedd yr ysgol fod yn un lle mae plant yn hapus, yn teimlo'n ddiogel ac yn gallu dysgu a thyfu. Mae diogelu a hyrwyddo lles plant a phobl ifanc sy'n mynychu pob lleoliad addysg yn flaenoriaeth uchel i Lywodraeth Cymru.

Mae gan bawb sy'n gweithio mewn lleoliad addysg, gan gynnwys mewn ysgolion annibynnol, a ddaw i gysylltiad â phlant a'u teuluoedd, gyfrifoldeb i ddiogelu plant a phobl ifanc. Dylent weithio gydag awdurdodau lleol, yr heddlu, y gwasanaethau iechyd a gwasanaethau eraill i hyrwyddo lles plant a phobl ifanc a'u diogelu rhag niwed. Er mwyn cyflawni'r amcan hwn, mae angen systemau penodol i wneud y canlynol:

- Atal pobl anaddas[3] rhag gweithio gyda phlant
- Hyrwyddo arfer diogel a herio arfer gwael ac anniogel
- Nodi enghreifftiau lle mae sail dros bryderu am les plentyn, ac ysgogi neu gymryd camau priodol i'w gadw'n ddiogel
- Sicrhau, lle mae pryderon bod plentyn mewn perygl o gael ei gam-drin, ei esgeuluso a/neu ei niweidio, bod y pryderon hyn yn cael eu pasio ymlaen i Wasanaethau Cymdeithasol Plant a/neu'r Heddlu os yw'r plentyn mewn perygl uniongyrchol o niwed
- Cyfrannu at waith partneriaeth a chyfathrebu effeithiol rhwng pawb sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau i blant a theuluoedd
- Hyrwyddo a diogelu hawliau plant a phobl ifanc.

Nodir rolau a chyfrifoldebau perchnogion ysgolion annibynnol, cyrff llywodraethu, penaethiaid a staff sydd â chyfrifoldebau dynodedig dros ddiogelu yn y canllawiau Cadw dysgwyr yn ddiogel.

Dylai perchnogion, cyrff llywodraethu, cyngor rheoli, penaethiaid a staff ysgolion annibynnol gael hyfforddiant priodol ar eu cyfrifoldebau o ran diogelu plant ac ar ddelio â honiadau o gam-drin a wneir yn erbyn staff yr ysgol.

Mae awdurdodau lleol yn gallu darparu cyngor a chefnogaeth i ysgolion annibynnol o ran diogelu, ac mae llawer yn gwneud hynny, gan godi ffioedd priodol am y gwaith. Fodd bynnag, nid oes rhaid iddynt ddarparu'r gwasanaethau hyn. Os na fydd ysgolion annibynnol yn prynu gwasanaethau gan awdurdod lleol, gallant gysylltu â'u Bwrdd Diogelu Plant Rhanbarthol i gael cyngor.

Yn 2007 gwnaed diwygiadau i Reoliadau Safonau Ysgol Annibynnol (Cymru) 2003 mewn perthynas â gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Ar hyn o bryd mae'r perchennog (unigolyn, corfforaeth, ffyrm neu gorff o bersonau Albanaidd) a'r staff (sef y bobl hynny sy'n gweithio yn yr ysgol a gwirfoddolwyr) yn gorfod cael eu gwirio gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Rhaid i aelodau staff sy'n gweithio gyda phlant mewn llety preswyl gydymffurfio â'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol (SGC) ar gyfer Ysgolion Preswyl 2003, neu, lle bo hynny'n berthnasol, y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Ysgolion Arbennig Preswyl 2003, a rhaid i wladolion tramor sy'n gweithio yn yr ysgol hefyd gael eu gwirio cyn eu penodi, fel y nodir yn 'Atal pobl anaddas rhag gweithio gyda phlant a phobl ifanc yn y Gwasanaeth Addysg'.

[3] Mae Adran 113BA o Ddeddf yr Heddlu 1997 yn nodi gwybodaeth am addasrwydd mewn perthynas â diogelu plant.

Yn anffodus, cafwyd achosion lle nad oedd gan ysgolion annibynnol systemau priodol ar waith i sicrhau diogelwch dysgwyr. Fel rhan o'n hadolygiad o'r rheoliadau, rydym am archwilio pa fesurau ychwanegol y gellir eu rhoi ar waith i ddiogelu plant a phobl ifanc a'u gwarchod rhag perygl o niwed.

Mae yna fodiwlau hyfforddi penodol cyfredol sy'n gysylltiedig â gofynion *Cadw dysgwyr yn ddiogel* ar gael ar gyfer lleoliadau addysgol ar HWB i'w helpu i ddeall eu rolau a'u cyfrifoldebau, a sut i weithredu'r canllawiau. Rydym yn ystyried datblygu modiwl yn benodol ar gyfer ysgolion annibynnol a fydd yn adlewyrchu eu sefyllfa unigryw nhw a'r ffordd y maent yn gweithredu. Hoffem weithio gyda'r sector i drafod beth, yn ychwanegol at yr hyn sydd eisoes ar gael, y byddech yn ei chael yn ddefnyddiol yn y modiwl.

Er mwyn sicrhau bod pawb mewn ysgol yn ymwybodol o'r polisïau ac yn deall sut maen nhw'n effeithio arnyn nhw'n unigol ac yn broffesiynol, a ddylai fod yn ofynnol i ysgolion ddarparu hyfforddiant i'r holl staff a dysgwyr ar faterion fel diogelu, lles a sut i godi pryderon?

Mae Llywodraeth Cymru o'r farn ei bod yn bwysig bod gan ysgolion annibynnol drefniadau priodol i gynnwys dysgwyr wrth ddatblygu polisïau'r ysgol a phenderfyniadau pwysig sy'n effeithio arnynt. Er y bydd gan rai ysgolion systemau effeithiol ar waith, hoffem gael eich barn ar sut y gallwn sicrhau dull gweithredu cyson ac ystyrlon ym mhob ysgol annibynnol sy'n caniatáu i lais y dysgwyr gael ei glywed. A ddylai fod yn ofynnol i ysgolion ddarparu tystiolaeth fod y broses adolygu polisïau yn ystyried barn dysgwyr?

A oes pobl eraill sy'n dod i gysylltiad rheolaidd â dysgwyr a ddylai hefyd gael eu gwirio gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, (megis teuluoedd sy'n lletya dysgwyr drwy drefniant ysgol neu staff cyflenwi), ac a ddylid diweddaru gwiriadau ar yr holl staff yn fwy aml.?

**Cwestiwn 2: A ddylid diweddaru gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar y perchnogion a'r staff yn fwy aml?**

**Cwestiwn 3: A oes unrhyw bobl eraill[4] a ddylai gael eu gwirio gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd neu y dylid cynnal gwiriadau eraill arnynt cyn y gallant weithio neu ddod i gysylltiad rheolaidd â dysgwyr yn yr ysgol?**

**Cwestiwn 4: A fyddai modiwl hyfforddi newydd ar ofynion *Cadw dysgwyr yn ddiogel*, wedi'i anelu'n benodol at ysgolion annibynnol, o gymorth, a beth, yn ychwanegol at yr hyn sydd eisoes ar gael, y dylid ei gynnwys yn y modiwl?**

**Cwestiwn 5: Pa fesurau ychwanegol y dylid eu cyflwyno i gynyddu diogelwch a lles dysgwyr megis hyfforddiant?**

**Cwestiwn 6: Sut gallwn sicrhau bod llais dysgwyr yn cael ei glywed wrth ddatblygu polisïau a phenderfyniadau sy'n effeithio arnynt?**

[4] Darganfyddwch pa un o wiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yw'r un iawn i'ch cyflogai chi - GOV.UK (www.gov.uk)
Cwblhewch yr holiadur ar gyfer glanhawr yr ysgol a gyflogir gan gwmni dan gontract yn y ddolen uchod fel enghraifft

## Cryfhau prosesau rheoli a llywodraethu

Mae llywodraethu cryf ac effeithiol yn hanfodol i lwyddiant ysgol. Pan fydd ysgol annibynnol yn methu â bodloni un neu fwy o'r safonau mewn ffordd ddifrifol, mewn mwy nag un ffordd, neu fwy nag unwaith, mae'n awgrymu weithiau bod gwendidau yn strwythur rheoli a phrosesau llywodraethu'r ysgol. Yn ei adroddiadau blynyddol, mae Estyn yn aml yn cysylltu methiannau yn y trefniadau i adolygu elfennau pwysig o waith yr ysgol, megis ansawdd yr addysgu neu ganolbwyntio ar flaenoriaethau gwella a chodi safonau, â diffygion ym mhrosesau arwain yr ysgol.

A oes mwy y gellid ei wneud yn y rheoliadau a'r canllawiau i'w gwneud yn eglur pwy sy'n gyfrifol am sicrhau bod yr ysgol yn cydymffurfio'n gyson â'r safonau a nodir yn y rheoliadau? A fyddai'n gliriach ac yn haws deall pwy sydd â'r prif gyfrifoldeb am gydymffurfio pe bai'r rheoliadau yn cyfeirio at rolau penodol fel 'y perchennog' yn hytrach na thermau generig fel 'yr ysgol'?

Un dull o weithredu fyddai cynnwys mwy o wybodaeth yn y ddogfen ganllaw ar feysydd fel yr hyn a ystyrir yn arfer llywodraethu da; strwythurau llywodraethant a awgrymir a'r rolau a'r cyfrifoldebau; sut i ymgorffori gwahaniad rolau a dyletswyddau penodol ynghyd â gwiriadau eraill ym mhrosesau rheoli ysgol. Dull arall fyddai ei gwneud yn ofynnol yn y rheoliadau i dîm arweinyddiaeth yr ysgol brofi eu bod yn meddu ar y sgiliau a'r profiad priodol, er mwyn sicrhau bod yr ysgol yn cydymffurfio'n gyson â'r holl safonau eraill a galluogi dysgu ac addysgu o safon uchel.

Bydd cyflwyno gofynion newydd yn y safonau yn caniatáu i Weinidogion Cymru gymryd camau os oes methiannau amlwg yng ngallu'r ysgol i gydymffurfio â'r gofynion hynny.

**Cwestiwn 7: Pa gamau ychwanegol y dylid eu cymryd i gryfhau arweinyddiaeth a threfniadau rheoli a llywodraethu ysgol?**

**Cwestiwn 8: Sut dylid cyflawni'r camau ychwanegol hyn; drwy reoliadau neu drwy ganllawiau?**

## Methu â bodloni un neu fwy o safonau

Mae'r ymyriadau sydd ar gael i Weinidogion Cymru yn gyfyngedig. Mae ganddynt bwerau i osod cyfyngiadau perthnasol ar ysgolion annibynnol, a chymryd camau penodol mewn perthynas â nhw, mewn amgylchiadau penodol. Os yw Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni bod ysgol wedi methu â chyrraedd un neu fwy o'r safonau a bod perygl o niwed difrifol i les y dysgwyr, gallant orchymyn i'r ysgol gael ei thynnu o'r gofrestr o ysgolion annibynnol. Caiff yr ysgol 28 diwrnod i apelio.

Lle bydd un ai arolygiad craidd neu arolygiad arbennig yn canfod bod yr ysgol wedi methu â bodloni un neu fwy o'r safonau, bydd Gweinidogion Cymru yn gofyn i'r ysgol gyflwyno cynllun gweithredu sy'n nodi'r camau y bydd yn eu cymryd i fodloni'r safon(au) a'r amserlen ar gyfer cwblhau'r camau gweithredu. Os bydd yr ysgol annibynnol yn methu â chydymffurfio â'r camau gofynnol, mae gan Weinidogion Cymru y pŵer i gymryd camau penodol, a allai gynnwys cau rhan o'r lleoliad neu ei atal rhag derbyn dysgwyr newydd. Yn y pen draw, gellid tynnu'r ysgol oddi ar y gofrestr am fethu â bodloni un neu fwy o'r safonau, a fyddai'n golygu bod yn rhaid i'r ysgol gau ar unwaith.

Tynnu ysgol o'r gofrestr yw'r cam gorfodi cryfaf y gall Llywodraeth Cymru ei gymryd. Hyd yma, nid oes unrhyw ysgol wedi'i datgofrestru yng Nghymru.

Byddai gennym ddiddordeb mewn clywed eich barn ar, a ddylid adolygu yr ymyriadau ar camau gorfodi sydd ar gael i Lywodraeth Cymru rhwng yr adeg pan nad yw cynllun gweithredu yn datrys y pryderon a phan ddilëir yr ysgol o'r gofrestr. Hoffem archwilio gyda chi'r posibilrwydd o ddatblygu fframwaith ymyrryd, sy'n rhesymol ac yn gymesur ac sy'n adlewyrchu difrifoldeb y methiant.

**Cwestiwn 9: Pa gamau y dylai fod ar gael i Weinidogion Cymru i'w cymryd ac o dan ba amgylchiadau? (Er enghraifft os yw ysgol yn methu cydymffurfio gyda un neu fwy o'r safonau, neu os yw ysgol yn methu gweithredu ei cynllun gweithredu, neu os yw ysgol yn methu cydymffurfio â chyfarwyddid gan Lywodraeth Cymru).**

# Newidiadau eraill

## Ansawdd Addysg

Nid oes gofyn i ysgolion annibynnol fabwysiadu'r cwricwlwm a ddysgir mewn ysgolion a gynhelir ac nid oes bwriad i newid hynny. Er hynny, mae bron i 20 mlynedd ers i'r safon ansawdd yr addysg a ddarperir gael ei greu ac mae cymdeithas ac anghenion bobl ifanc wedi newid yn sylweddol yn yr amser hynny.

Hoffem glywed gennych os ydych yn ystyried bod angen diwygio y safon ansawdd yr addysg a ddarperir i adlewyrchu y newidiadau mewn cymdeithas ers 2003 ac i sicrhau bod dysgwyr yn gwireddu eu llawn botensial ac yn cael eu paratoi ar gyfer bywyd oedolyn. Er enghraifft a ddylid ychwanegu meysydd dysgu sydd ar goll ar hyn o bryd.

**Cwestiwn 10: Pa newidiadau y mae angen eu gwneud yn eich barn chi i safon ansawdd yr addysg a ddarperir er mwyn adlewyrchu y newidiadau mewn cymdeithas ac anghenion dysgwyr ers i'r safonau cael ei gwneud?**

## Dysgu cyfunol (dysgu ar-lein ac yn yr ystafell ddosbarth) mewn ysgolion annibynnol cofrestredig

Fel rhan o'r adolygiad hwn, rydym am ddysgu o brofiadau ysgolion yn ystod pandemig COVID-19 pan symudwyd yr addysgu ar-lein. Mae gennym dystiolaeth bod rhai ysgolion wedi dewis symud i fodel darpariaeth gyfunol, gyda'r dysgwyr ond yn mynychu'r ysgol am ran o'r amser ac yn cael eu haddysgu o bell am weddill yr amser. Gan y gallai hyn ddod yn ddull mwy cyffredin o ddysgu ac addysgu, hoffem glywed eich barn ynghylch a oes angen diwygio'r rheoliadau a/neu'r canllawiau er mwyn ystyried amgylchiadau pan fydd ysgol yn dewis mabwysiadu model dysgu cyfunol.

**Cwestiwn 11: Pa newidiadau sydd ei angen ar y  rheoliadau a/neu'r canllawiau i cymryd i ystyriaeth model dysgu cyfunol?**

## Cofrestru staff addysgu gyda Chyngor y Gweithlu Addysg

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod pwysigrwydd diweddaru'r sefyllfa reoleiddiol mewn perthynas ag ysgolion annibynnol er mwyn sicrhau bod staff wedi'u cofrestru gyda Chyngor y Gweithlu Addysg.

Ar hyn o bryd, nid yw'n ofynnol i staff sydd yn gweithio mewn ysgolion annibynnol gofrestru gyda Chyngor y Gweithlu Addysg, ond gallant ddewis cofrestru'n wirfoddol, ac mae rhai ysgolion annibynnol yn ei gwneud yn ofynnol i'w staff gofrestru, er nad yw hyn yn ofyniad cyfreithiol.

Disgwylir i bawb sydd wedi cofrestru gyda Chyngor y Gweithlu Addysg gadw at God Ymddygiad proffesiynol. Gall methiant unigolyn i gadw at y Cod beryglu ei statws gyda'r Cyngor, a allai, yn ei dro, effeithio ar ei allu i barhau fel athro neu weithiwr cymorth dysgu mewn ysgol yng Nghymru. Mae gan y Cyngor bwerau cyfreithiol i ymchwilio i a chlywed

achosion o ymddygiad proffesiynol annerbyniol honedig, anallu proffesiynol difrifol a throseddau sy'n ymwneud ag unigolion sydd wedi cofrestru.

Byddai cyflwyno gofyniad i'r holl staff addysgu a staff cymorth dysgu mewn ysgolion annibynnol gofrestru gyda Chyngor y Gweithlu Addysg yn gam ychwanegol tuag at ddiogelu dysgwyr. Byddai hefyd yn cyfrannu at sefydlu proses glir y mae pawb yn ei deall ar gyfer ymchwilio i bryderon am aelodau unigol o staff, yn debyg i'r un ar gyfer staff mewn ysgolion a gynhelir, drwy ddarparu llwybr i unigolion neu sefydliadau godi pryderon gyda chorff proffesiynol allanol.

Gan nad oes gofyniad i staff addysgu mewn ysgolion annibynnol fod â Statws Athro Cymwysedig (SAC), hoffem glywed eich barn ynghylch a ddylid creu categori cofrestru newydd o staff addysgu ar gyfer ysgolion annibynnol.  O dan y drefn bresennol, dim ond fel gweithwyr cymorth dysgu y gall y rhai sy'n gweithio fel athrawon mewn ysgolion annibynnol nad oes ganddynt SAC gofrestru, er bod y safonau addysgu ar gyfer ysgolion annibynnol yn debyg i'r 'gwaith penodedig' ar gyfer athrawon yn y sector a gynhelir.

Yn y sector a gynhelir, mae'n ofynnol hefyd i staff eraill sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau cymorth dysgu gofrestru gyda Chyngor y Gweithlu Addysg fel gweithwyr cymorth dysgu, megis y gweithwyr cymorth dysgu eu hunain, cynorthwywyr dosbarth, hyfforddwyr, goruchwylwyr cyflenwi a thechnegwyr (ymhlith eraill). A ddylai staff mewn ysgolion annibynnol sydd â rolau tebyg ac sy'n rhyngweithio'n uniongyrchol â dysgwyr i gynorthwyo neu gefnogi gwaith staff addysgu hefyd orfod cofrestru gyda'r Cyngor?

Mae'r ffi gofrestru flynyddol sy'n daladwy gan y rhai y mae'n ofynnol iddynt gofrestru gyda Chyngor y Gweithlu Addysg wedi'i gosod mewn deddfwriaeth ar hyn o bryd fel £46. Mae Llywodraeth Cymru yn rhoi cymhorthdal tuag at y ffi hon, felly mae'n ofynnol i unigolion dalu £45 ar hyn o bryd os ydynt wedi'u cofrestru fel athro a £15 os ydynt wedi'u cofrestru fel gweithiwr cymorth dysgu.

**Cwestiwn 12: Pa gategorïau o staff ysgolion annibynnol y dylai fod yn ofynnol iddynt gofrestru gyda Chyngor y Gweithlu Addysg?**

**Cwestiwn 13: Pa ffioedd y dylid disgwyl i unigolion sy'n gweithio yn y sector annibynnol eu talu?**

**Cwestiwn 14: Hoffem gael gwybod eich barn am yr effeithiau y byddai'r cynigion yn eu cael ar y Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac o ran peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.**

**Beth fyddai'r effeithiau, yn eich barn chi? Sut y gellid cynyddu'r effeithiau cadarnhaol, neu liniaru'r effeithiau negyddol?**

**Cwestiwn 15: Eglurwch hefyd os gwelwch yn dda sut rydych chi'n credu y gall y cynigion gael eu llunio neu eu haddasu er mwyn: cael effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg; a pheidio â chael effeithiau andwyol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg**.

**Cwestiwn 16: Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau ymgynghori penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi mynd i'r afael â nhw'n benodol, ychwanegwch nhw i'ch ymateb.**